Colomen Noa

Diolchgarwch / Gostyngeidrwydd

"Mae'r arch yn barod," gwaeddodd Noa ar ei deulu. Fesul un daeth yr anifeiliaid i fyny at yr arch. Roedden nhw wedi clywed bod Noa yn mynd i ddewis yr anifeiliaid gorau. Dyna lle'r oedden nhw i gyd yn canmol eu hunain. Rhuodd y llew. "Y fi ydi'r cryfaf o'r holl anifeiliaid. Mae'n siŵr y byddaf i yn cael mynd i mewn i'r arch."

Cerddodd yr eliffant yn araf tua'r arch "Y fi ydi'r anifail mwyaf ar y ddaear i gyd. Byddaf i yn sicr o gael mynd i mewn i'r arch."

"Beth amdanaf i?" gofynnodd y mwnci. "Y fi ydi'r dringwr gorau yn y byd. Mi fyddaf i'n sicr o gael mynd i mewn i'r arch."

"Rydw i'n perthyn o bell i'r eliffant," meddai'r llygoden gan wichian. "Bydd yna ddigon o le i mi yn yr arch."

Dechreuodd yr anifeiliaid i gyd ganmol eu hunain.

"Rydw i yn rhoi gwlân i chi gael cadw'n gynnes," meddai'r ddafad.

"Dodwy wyau ydw i ," meddai'r iâr dan glochdar.

"Fe alla i gario pobl ar fy nghefn," gweryrodd y ceffyl â'i ddau lygaid mawr yn pefrio.

"Os oes gen ti ddau lygad mawr, mae gen i gannoedd o lygaid bach, bach," meddai'r glöyn byw gan agor ei adenydd lliwgar led y pen.

"Peidiwch â chanmol eich hunain fel hyn," meddai'r parot coch a glas, "mi fedra i siarad run fath o phobl. Fedrwch chi ddim gwneud hynny."

"Dydi hynna ddim byd," meddai'r sioncyn gwair, "mi fedra i ganu efo nghoesau."

Erbyn hyn, roedd Noa druan wedi blino gwrando ar yr anifeiliaid yn canmol eu hunain. Sylwodd Noa bod y golomen wen yn clwydo ar y gangen uwchben. Doedd hi ddim yn dweud gair o'i phen. Bu'n gwrando'n astud ar yr hyn oedd gan

yr anifeiliaid i'w ddweud.
"Oes gen ti rywbeth i'w ddweud?" gofynnodd Noa iddi. "Pam wyt ti mor ddistaw?"
"Dydw i ddim yn credu mod i'n well na'r un o'r anifeiliaid eraill i gyd. Dydw i ddim yn credu mod i'n gallu gwneud dim yn well na'r un anifail arall. Mae gan bob un ohonom rywbeth nad oes gan anifail arall mohono. Mae gan bob un ohonom rodd arbennig gan Dduw."
"Rwyt ti'n berffaith iawn," meddai Noa. "Does dim angen i run ohonoch ganmol eich hunain a chystadlu yn erbyn eich gilydd. Mae Duw wedi dweud wrthyf am gymryd pob math o anifeiliaid i mewn i'r arch."
Pan glywodd yr anifeiliaid yr hyn oedd gan Noa i'w ddweud roedden nhw'n hapus dros ben.
Agorodd Noa ddrws yr arch. "Rwyf yn eich caru pob un ohonoch ond gan fod y golomen wen wedi bod yn ddistaw, rwyf yn ei dewis hi i fod yn negesydd i mi."
Ar ôl i'r glaw beidio, cadwodd Noa at ei air. Anfonodd y golomen wen allan i chwilio am dir sych. Ar ôl ysbaid o amser daeth yn ei hol a deilen yr olewydden yn ei phig. Gwyddai Noa, bryd hynny, bod y dyfroedd wedi cilio. Pan sychodd y ddaear daeth Noa, ei deulu a'r anifeiliaid allan o'r arch. Diolchodd Noa i'r golomen wen am ei helpu.
Byth ers hynny, y golomen ydi'r aderyn sy'n symbol o heddwch yn y byd.

O Dduw, gwna fi fel y golomen wen, yn hapus fy myd ac yn barod i wneud fy ngorau bob amser. Amen.

✦ Fyddwch chi weithiau'n canmol eich hun?
✦ Ydych chi'n meddwl eich bod yn gallu gwneud pethau'n well na phlant eraill. Sut y dylen ni ymddwyn tuag at blant eraill?